## ROEDDWN I'N MEDDWL MOD I WEDI COFRESTRU I BLEIDLEISIO EISOES?

Os ydych wedi'ch cofrestru'ch hun yn eich cyfeiriad presennol ers 10 Mehefin 2014 yng Nghymru a Lloegr, neu 19 Medi 2014 yn yr Alban – ac nad ydych wedi symud cartref ers hynny – byddwch wedi'ch cofrestru o dan y system newydd. Byddwch hefyd wedi'ch cofrestru i bleidleisio os ydych wedi derbyn gwybodaeth gan y cyngor i'ch cyfeiriad presennol sy'n dweud eich bod chi wedi'ch cofrestru dan y system newydd.

Os nad ydych yn siŵr os ydych wedi'ch cofrestru o dan y system newydd ai peidio, cysylltwch â staff cofrestru etholiadol lleol.



## BETH OS NAD YDW I'N COFRESTRU?

Nid yn unig ni fyddwch yn cael lleisio'ch barn yn etholiadau a refferenda'r dyfodol, ond os nad ydych yn ymateb i geisiadau am wybodaeth gan staff cofrestru etholiadol eich cyngor lleol gallech wynebu dirwy o £80.

Mae'r system gofrestru wedi newid, a hyd yn oed os oeddech wedi'ch cofrestru yn y gorffennol efallai bod angen i chi gofrestru eto nawr.



## MAE'N RHAID I CHI FOD WEDI'CH COFRESTRU ER MWYN PLEIDLEISIO.



MAE DY BLEIDLAIS DI'N CYFRIF
GWNA'N SIŴR DY FOD TI MEWN

## SUT YDW I'N COFRESTRU?

Mae cofrestru i bleidleisio yn syml.

1. Ewch i www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio
2. Llenwch eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni ac ychydig fanylion eraill. Bydd hefyd angen eich Rhif Yswiriant Gwladol, sydd ar eich cerdyn yswiriant gwladol, neu ar waith papur swyddogol megis slipiau cyflog, neu lythyron ynghylch budd-daliadau neu gredydau treth.
3. Cadwch lygad allan am eich cadarnhad gan staff cofrestru etholiadol lleol i ddweud eich bod wedi'ch cofrestru.

Os nad ydych yn gallu cael mynediad i'r we neu os na allwch ei ddefnyddio, bydd eich staff cofrestru etholiadol lleol yn gallu eich helpu i gofrestru.





## YNGHYLCH COFRESTRU PLEIDLEISWYR

Mae angen i chi gofrestru er mwyn gallu pleidleisio mewn etholiadau a refferenda. Mae'r ffordd yr ydych yn cofrestru i bleidleisio wedi newid yn 2014.

Mae'r system newydd yn golygu:

- Gallwch nawr gofrestru ar-lein
- Mae pawb yn gyfrifol am gofrestru eu hunain. O dan yr hen system gallai 'pennaeth y cartref' gofrestru pawb oedd yn byw yn eu cyfeiriad.
- Mae angen i chi ddarparu rhai manylion i gofrestru – gan gynnwys eich Rhif Yswiriant Gwladol a'ch dyddiad geni. Mae hyn yn gwneud y gofrestr etholiadol yn fwy diogel.



## PAM DDYLWN I GOFRESTRU?

I bleidleisio: Mae'n rhaid i chi gofrestru er mwyn gallu pleidleisio. Os nad ydych wedi'ch cofrestru i bleidleisio, ni fydd gennych gyfle i gael dweud eich dweud ar pwy sy'n eich cynrychioli chi.

Gall cofrestru i bleidleisio hefyd wella'ch statws credyd. Mae hyn gan fod asiantaethau gwirio credyd yn defnyddio'r gofrestr i gadarnhau ble mae rhywun yn byw pan eu bod yn gwneud cais am gredyd er mwyn gwrthweithio twyll.

